**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cyflwynwyd Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 gerbron Senedd y DU ar 19 Tachwedd 2018 ac mae'n cael ei osod gerbron y Cynulliad yn awr. Mae'r gorchymyn ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111174807/contents

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod**

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch organau y bwriedir iddynt gael eu trawsblannu.

4. Mae'r OS hwn yn gwneud cywiriadau technegol i Deddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae gofyn gwneud y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Meinweoedd Dynol 2004 i wneud mân ddiwygiad technegol i ddileu cyfeiriadau at y Cyfarwyddebau nad ydynt yn briodol bellach.

6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5 uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch organau y bwriedir iddynt gael eu trawsblannu.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

7. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu

eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Vaughan Gething AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

22 Tachwedd 2018